Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Gwrandawiad cyn penodi – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ebrill 2024

## 1. Cyflwyniad

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**1.** Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw'r sefydliad GIG lleol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fel bwrdd iechyd, mae'n cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau iechyd iar gyfer bron i 400,000 o bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n rheoli ac yn talu am y gofal a'r driniaeth y mae pobl yn eu cael yn yr ardal hon ar gyfer anableddau corfforol, iechyd meddwl a dysgu.

**2.** Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau'r GIG ar draws chwarter tirfas Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ac mae cymunedau wedi'u gwasgaru'n eithaf eang mewn ardaloedd gwledig. Mae bron i hanner y boblogaeth, sef 48.8 y cant, yn byw yn Sir Gaerfyrddin, mae 32.5 y cant yn byw yn Sir Benfro, ac mae 18.7 y cant yn byw yng Ngheredigion. Mae gan y Bwrdd ffin fawr â siroedd eraill, ac felly mae cymunedau yn ne Gwynedd, gogledd Powys ac Abertawe / Castell-nedd Port Talbot hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau iechyd.

# 2. Y broses o gynnal gwrandawiad cyn penodi

## Y broses

**3.** Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd i gyflwyno gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau'r Senedd ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus penodol sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, neu benodiadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyhoedd. Y nod yw gwella ymhellach ar y gwaith craffu ar y broses o wneud penodiadau cyhoeddus yn ogystal â thryloywder y broses honno.

**4.** Yn gyffredinol, mae gwaith craffu cyn penodi yn digwydd ar ffurf gwrandawiad cyhoeddus cyn penodi, gyda'r ymgeisydd a ffefrir. Ar gyfer penodiadau i'r rolau hyn y cytunwyd arnynt, y pwyllgor perthnasol sy'n penderfynu a yw'n dymuno cynnal gwrandawiad cyn penodi.

## Gwrandawiad cyn penodi

**5.** Ar 19 Mawrth 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod Dr Neil Wooding wedi'i benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn amodol ar wrandawiad cyn penodi gyda'r Pwyllgor.

**6.** Cynhaliwyd y gwrandawiad cyn penodi ar 25 Ebrill 2024. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.

**7.** I lywio'r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses ("papur briffio Llywodraeth Cymru"), CV a datganiad ategol Dr Neil Wooding ynghyd â chopi o'r pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr[1]. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r ymgeisydd a ffefrir gwblhau holiadur cyn y gwrandawiad.

# 3. Y broses recriwtio

**8.** Cafodd y swydd ei hysbysebu ar wefan Llywodraeth Cymru ac mewn hysbysebion y talwyd amdanynt rhwng 26 Medi a 20 Hydref 2023.

**9.** Cynhaliwyd sesiynau i randdeiliaid ar 7 a 8 Mawrth 2024. Roedd aelodau'r sesiynau i randdeiliaid yn gynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd, eu partneriaid a'u rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain

[1] Defnyddiwyd y pecyn gwybodaeth hefyd i recriwtio Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

gan roi trosolwg byr o pam y gwnaethant gais am y rôl. Dilynwyd hyn gan drafodaeth agored 30 munud gydag aelodau'r panel.

**10.** Derbyniwyd saith cais. Argymhellwyd pedwar ymgeisydd i gael cyfweliad, ond tynnodd un ohonynt ei gais yn ôl cyn i'r cyfweliadau gael eu cynnal. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 29 Chwefror 2024. Roedd y Panel Cynghori ar Asesu o'r farn bod un ymgeisydd y gellir ei benodi.

### Manyleb y swydd a'r person

**11.** Amlinellodd Llywodraeth Cymru rôl y Cadeirydd yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysiad y gallai penodiad i rôl y Cadeirydd fod yn amodol ar wrandawiad cyn penodi, yn ôl disgresiwn y Pwyllgor.

**12.** Bydd y Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol am berfformiad y Bwrdd a'i lywodraethu effeithiol, am gynnal gwerthoedd y GIG, ac am ennyn hyder y cyhoedd a phartneriaid. Mae cyfrifoldebau manwl y Cadeirydd i'w gweld yn y pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr.

## 4. Yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

### Y cefndir

**13.** Dr Neil Wooding, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, yw Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar hyn o bryd. Mae wedi treulio ei yrfa fel uwch-was cyhoeddus, gan weithio'n bennaf yng Nghymru o fewn llywodraeth leol, ranbarthol a chanolog, y GIG a'r sector gwirfoddol.

**14.** Dyma a nododd yn yr holiadur cyn penodi:

> *I am motivated to apply for this role for three primary reasons:*
>
> *Firstly, I am profoundly passionate about people, community wellbeing and the critical role played by the NHS as a provider/facilitator of healthcare. Health is a universal building block and a prerequisite for creating a successful, prosperous, cohesive and fair society. Throughout my career, I have worked extensively within health services and engaged regularly with providers, I understand the scale of challenges facing the Health Board and very much want to play my part in finding a long-term sustainable solution.*

> *Secondly, I live in west Wales within the community served by the Health Board and hope to bring a local perspective and lived experience to the role. I see and experience the service at its best and worse, engaging with people across west Wales to build a picture of what is needed and the role played by everyone to secure good health and wellbeing. I fundamentally believe the communities we live in and the way we engage with each other are an essential part of the solution.*
>
> *And finally, I have spent much of my career blending both paid and unpaid work to build a unique portfolio of experience which I am confident would enrich the work of the health board and hopefully strengthen its operation. I am service orientated, solutions focused and resilient. Over many years, I worked with Boards in both a non-executive and executive capacity to appreciate the factors which help to deliver success.*

## Ein barn ni

**15.** Yn unol â'r canllawiau ar wrandawiadau cyn penodi y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, ein rôl ni yw nodi ein barn ar addasrwydd yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

**16.** Yn ystod y gwrandawiad cyn penodi, cawsom drafodaeth eang â Dr Neil Wooding, yr ymgeisydd a ffefrir. Gwnaethom drafod ei sgiliau a'i brofiad o weithio yn y sector gwirfoddol cymunedol ac mewn gwasanaeth cyhoeddus, a sut y byddai'n defnyddio'r profiad hwn yn ei rôl gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Buom yn ystyried ei wybodaeth a'i brofiad o weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a nododd yr heriau mwyaf sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd yn ei farn ef, gan gynnwys materion yn ymwneud ag argaeledd adnoddau a galw cynyddol am wasanaethau. Soniodd ychydig am y materion sy'n wynebu gwasanaethau gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol yn y drefn honno, a'r angen i'r gwasanaeth iechyd helpu a galluogi pobl i helpu eu hunain i aros yn iach. Siaradodd hefyd am yr angen i gydnabod nad yw'r gwasanaeth iechyd yn gweithredu ar ei ben ei hun; yn hytrach ei fod yn gweithio gyda phartneriaid, y mae angen i bob un ohonynt ddod at ei gilydd mewn model sy'n fwy cydweithredol er mwyn creu poblogaeth iach.

**17.** Gwnaethom drafod gyda Dr Wooding am y pwysigrwydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda feithrin perthynas strategol â'i fyrddau iechyd cyfagos. Cadarnhaodd ei fod yn ystyried bod ei rôl yn ymwneud â meithrin perthynas gryfach â'r byrddau cyfagos hynny, ac y byddai cael ffocws mwy allblyg yn sicrhau budd i bawb.

**18.** O ran staff y bwrdd iechyd, gwnaethom holi Dr Wooding ynghylch y dull yr oedd yn bwriadu ei ddefnyddio i sicrhau gweledigaeth, strwythur a diwylliant a gallai pob aelod o staff ymwneud yn llawn â hwy. Siaradodd am bwysigrwydd sicrhau diwylliant y mae pobl yn teimlo ei fod yn caniatáu iddynt gyfrannu'n ystyrlon, yn hytrach na gwylio o bell, o ran y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu. Dywedodd wrthym mai rhan o'i rôl fyddai sicrhau bod y bwrdd yn cael ei arwain mewn ffordd sy'n ddangos hynny.

**19.** Gwnaethom drafod hefyd y berthynas waith benodol yn y Bwrdd a sut yr oedd Dr Wooding yn teimlo y gallai feithrin perthynas gryf rhwng y Bwrdd a'r Prif Weithredwr/staff, wrth ddarparu her adeiladol hefyd. Dywedodd fod sgyrsiau agored parchus, yn ei brofiad ef, yn gallu helpu gyda'r her honno a'i bod yn bwysig gallu herio heb ddyfarniad fel nad yw pobl yn teimlo bod yr her yn eu tanseilio ond yn hytrach eu bod yn teimlo y gallant ateb y cwestiwn ac ymateb yn briodol.

**20.** Gwnaethom holi Dr Wooding ynghylch y sgiliau a'r profiad yr oedd yn gallu eu defnyddio i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei rôl yn y bwrdd iechyd. Dywedodd wrthym fod llawer o'i brofiad proffesiynol wedi cynnwys hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, a bod angen meithrin sylfaen ddiwylliannol i annog mwy o bobl i siarad. Siaradodd hefyd am bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau i wneud i bobl werthfawrogi gweithio i'r GIG; i annog pobl i deimlo bod y GIG yn perthyn iddynt hwy ac nad ydynt yn ymuno â sefydliad allanol. At hynny, dywedodd fod angen sicrhau bod yr holl fesurau hidlo sydd fel arfer yn cael eu defnyddio, wrth recriwtio pobl y tu mewn i sefydliad, ar y pwynt isaf posibl, gan sicrhau na ofynnir am unrhyw beth a fyddai naill ai'n gwahaniaethu yn erbyn cymunedau penodol neu'n eu rhoi o dan anfantais.

**21.** Mewn perthynas â hyrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg, siaradodd Dr Wooding am yr angen i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl yn yr iaith fwyaf cyfforddus iddynt, a bod hyn yn ffordd bwysig y gallai'r bwrdd adlewyrchu'r gymuned yr oedd yn ei gwasanaethu.

**22.** Yn olaf, o ran penodiadau eraill a oedd gan Dr Wooding, ef yw Cadeirydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac mae'n gomisiynydd gwasanaeth sifil ac yn gyfarwyddwr anweithredol yn Llywodraeth yr Alban. Er nad oedd yn credu y

byddai'r swyddi hyn yn arwain at unrhyw wrthdaro buddiannau, cadarnhaodd y byddai, pe bai'n cael ei benodi, yn debygol o ymddeol o'i swydd yn Llywodraeth yr Alban er mwyn canolbwyntio ar ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**Conclusion 1.** Ar sail ei berfformiad a'i ymatebion i gwestiynau yn y gwrandawiad cyn penodi, ni wyddom am unrhyw reswm pam na ddylai Dr Neil Wooding, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, gael ei benodi i swydd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**23.** Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol ac edrychwn ymlaen at graffu'n adeiladol ar ei waith yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystod cyfnod y Senedd hon.